



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Dechrau'n Deg – Atodiad

Canllawiau ar gyfer Gofal Plant o  
Ansawdd Da

Ebrill 2014



## Cynnwys

|  |    |
|--|----|
| 1. Y canllawiau hyn  | 3  |
| 2. Cyflwyniad  | 4  |
| I. Amgylchedd o ansawdd da                                 | 6  |
| II. Pobl o ansawdd da                                      | 7  |
| III. Profiad o ansawdd da i'r plentyn                      | 9  |
| 3. Cymorth wrth sicrhau ansawdd da                         | 11 |
| 4. Nifer a hyd y sesiynau                                  | 12 |
| 5. Cydraddoldeb, cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol | 12 |
| 6. Darpariaeth Gymraeg                                     | 13 |
| 7. Cynnwys rhieni  | 14 |
| 8. Crynodeb  | 15 |
| Llyfryddiaeth  | 16 |

## 1. Y canllawiau hyn

Dechrau'n Deg yw rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Mae wedi'i hanelu at deuluoedd sydd â phlant o dan 4 oed ac sy'n byw mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae elfennau craidd y rhaglen wedi'i seilio ar amrywiaeth o bethau y profwyd eu bod yn helpu i wella sefyllfa plant a'u teuluoedd. Ymhlith y rhain mae:

- Gofal plant rhan amser o ansawdd am ddim i blant 2-3 oed
- Gwell Gwasanaeth Ymweliadau Iechyd
- Mynediad at Raglenni Rhianta
- Datblygu Iaith yn Gynnar.

Dylid darllen y canllawiau hyn ac y cyd â chanllawiau Dechrau'n Deg y Llywodraeth, gan gynnwys Canllawiau Strategol Dechrau'n Deg a chanllawiau penodol eraill sy'n ymwneud ag elfennau craidd y rhaglen. Cewch weld y rhain drwy ddilyn y ddolen <http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/parenting/help/flyingstart/?lang=cy>

## Cynulleidfa

Mae'r canllawiau a nodir yn yr Atodiad hwn ar gyfer y rheini sydd â chyfrifoldeb am gynllunio a rheoli gofal plant at gyfer plant sy'n cael cymorth Dechrau'n Deg.

## 2. Cyflwyniad


Mae darparu gofal plant rhan-amser o ansawdd ar gyfer plant 2-3 oed yn rhan annatod o raglen Dechrau'n Deg. Mae gofal plant o ansawdd da yn cyfrannu at gaffael sgiliau fel cymdeithasoli a'r gallu i chwarae ac i ganolbwyntio. Mae'r rhain yn hanfodol, nid yn unig i allu'r plentyn i ddysgu wedi hynny, ond hefyd i gymryd rhan mewn grwpiau, p'un ai yn yr ystafell ddosbarth, yn y farchnad lafur neu yn y gymdeithas.

Mae ymchwil yn awgrymu bod gofal plant blynyddoedd cynnar o ansawdd da yn arwain at welliannau yn natblygiad plant yn y blynyddoedd wedyn, megis gwella sgiliau iaith; gwell perfformiad addysgol mewn mathemateg a darllen; a lleihad mewn ymddygiad ymosodol. Mae plant sy'n mynychu lleoliadau blynyddoedd cynnar o ansawdd da yn fwy annibynnol, yn canolbwyntio ar eu chwarae am gyfnod hirach ac, pan maent yn dechrau yn yr ysgol, yn fwy parod i gydweithredu ac wedi eu paratoi'n well ar gyfer yr heriau sy'n eu hwynebu. [Effective Provision of Pre-School Education (EPPE) (2003); Schweinhart et al (1993), Love et al (2005)]. Un o ganfyddiadau'r astudiaeth EPPE yw bod cysylltiad rhwng gofal cyn-ysgol o ansawdd da a gwell gyrhaeddiad deallusol a gwell perthnasoedd cymdeithasol. Hefyd, mae ymchwil wedi canfod nad yw mynychu amser llawn yn arwain at enillion gwell i blant na mynychu rhan amser (Sylva et al, 2004).

Felly ffocws ar ddarpariaeth o ansawdd da ddylai fod yn sylfaen i bob agwedd ar ofal plant Dechrau'n Deg. Nid yn unig dylai gofal plant Dechrau'n Deg anelu at fod o'r ansawdd gorau, dylai hefyd ymdrechu i fod yn feincnod ar gyfer gofal plant o ansawdd da ledled Cymru.

Ceir 3 mesur ansawdd allweddol mewn lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg llwyddiannus:

- I. Amgylchedd o ansawdd da;
- II. Pobl o ansawdd da; a
- III. Phrofiad o ansawdd da i'r plentyn.



Bydd y cyfuniad o bobl o ansawdd da yn darparu gofal mewn amgylchedd o ansawdd da yn arwain at brofiad o ansawdd da i'r plentyn. Bydd y profiad yn helpu i osod y sylfeini ar gyfer holl ddatblygiad y plentyn yn y dyfodol.

Mae Dechrau'n Deg wedi'i seilio ar y disgwyliadau canlynol:

- a) Dylai'r staff sy'n gweithio gyda phlant ifanc fod wedi'u hyfforddi'n dda ac â chymwysterau da; dylent ddeall sut mae plant yn datblygu ac yn dysgu; a dylent fod yn sensitif ac yn ymatebol i'w hanghenion a'u teimladau.
- b) Rôl yr oedolyn yn y lleoliad yw cynorthwyo a hwyluso dysgu yn hytrach na'i gyfarwyddo.
- c) Mae plant angen amgylchedd ysgogol a gofalgar. Bydd yr amgylchedd yn cynnwys mannau dan do ac yn yr awyr agored; yn ddiogel ac ar yr un pryd yn herio'r plant; yn fan lle gall plant fod yn hapus a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion.
- d) Dylai plant ddysgu trwy brofiadau uniongyrchol sy'n seiliedig ar chwarae ynghyd â darganfod, lle dylid eu hannog i arbrofi ac i fod yn annibynnol.
- e) Dylai'r rhaglen ddysgu ar gyfer plant o dan dair oed ganolbwyntio ar eu diddordebau a'u hanghenion; cynnig cyfleoedd iddynt feithrin eu hyder a'u hunan-barch; a datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r cysyniadau cynnar sy'n briodol i'w cam datblygiadol.
- f) Dylai'r cyfleoedd a ddarperir adeiladu ar yr hyn mae plant wedi ei brofi yn y cartref ac o fynd i weithgareddau cynnar fel grwpiau Rhieni a Phlant neu Ti a Fi. Dylai fod cysylltiad clir â datblygiad iaith cynnar, chwarae a'r Cyfnod Sylfaen.
- g) Dylai asesu trylwyr drwy arsylwi ar weithgareddau dyddiol y plant gael ei ddefnyddio i gefnogi cynnydd a'u datblygiad y plant.
- h) Dylid defnyddio dull asesu i ganfod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac i roi gwybod i'r gwahanol weithwyr proffesiynol yn ôl yr angen.
- i) Rhaid datblygu partneriaethau gwirioneddol rhwng rhieni<sup>1</sup> a'r staff. Dylid cynnwys rhieni yn yr holl drafodaethau am eu plentyn, a dylid cynnig awgrymiadau iddynt ar sut i gefnogi datblygiad eu plentyn y tu allan i'r lleoliad.
- j) Dylai lleoliadau feithrin cysylltiadau agos ag asiantaethau sy'n cefnogi plant a'u teuluoedd. Dylid rhannu gwybodaeth a gofyn am gymorth neu gyngor yr asiantaethau fel bo'r angen.

---

<sup>1</sup> Mae rhieni yn cynnwys rhieni a gofawyr

- k) Rhaid bod amrywiaeth o strategaethau ar waith i sicrhau proses pontio hwylus rhwng gwahanol amgylcheddau, a phroses pontio rhwng y cartref a Dechrau'n Deg, ac wedyn i'r Cyfnod Sylfaen, yn benodol.

## **I. Amgylchedd o ansawdd da**

Mae safon yr amgylchedd ffisegol yn cael effaith ar ansawdd y ddarpariaeth gofal plant. Dylai adeiladau ac adnoddau ar gyfer lleoliadau Dechrau'n Deg fod o'r safon uchaf, er mwyn sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau i blant, manau addysgu priodol i'r staff a man lle mae rhieni'n teimlo'n gyfforddus ac yn teimlo bod croeso iddynt. Gall cyfleusterau gwael gyfyngu ar brofiadau plant a gallai hyn gael effaith andwyol ar eu datblygiad corfforol a gwybyddol.

Mae plant angen man diogel yn yr awyr agored sy'n ddiddorol ac yn hawdd mynd iddo. Mae'r awyr agored yn lle delfrydol ar gyfer dysgu gweithredol; annog plant i gymryd risgiau priodol; dysgu'n uniongyrchol am y tywydd a natur; a lle mae'n bosibl cynnal gweithgareddau ar raddfa fawr ac sy'n gwneud llanastr. Mae ymchwil yn awgrymu bod yr amgylchedd awyr agored yn dylanwadu ar elfennau o ymddygiad plant. Mae lefel y gofal a welir wrth reoli'r amgylchedd hefyd yn cyfleu negeseuon cryf i blant ac i oedolion am y ffordd mae'r lleoliad yn eu gwerthfawrogi. Mae'r rhain yn cynnwys [Chwarae Cymru](#), Groundwork Cymru a [Dysgu Drwy Dirweddau](#).

Rhaid bod gofod digonol ar gael, o dan do ac yn yr awyr agored, i greu lleoedd chwarae mawr a bach lle gall plant, er enghraifft, ddefnyddio deunyddiau adeiladu mawr a bach. Mae angen lleoedd ar gyfer chwarae rôl, arbrofi ac ymchwilio, gweithgareddau celf a chreffft ac ar gyfer rhannu llyfrau. Dylid darparu manau ymgilio hefyd ar gyfer plant unigol ac ar gyfer grwpiau bach. Dylid cynnwys manau tawel hefyd, lle gall plant fyfrio a gorffwys.

Dylai fod gofod priodol ar gael i gadw gwaith sy'n mynd rhagddo neu weithgareddau sydd wedi eu cwblhau. Dylid darparu lleoedd storio priodol, sy'n hawdd mynd atynt, er mwyn annog plant i ddewis deunyddiau ac offer sy'n cefnogi eu datblygiad fel dysgwyr ymreolus.

Bydd y staff hefyd angen manau tawel sy'n eu galluogi i weithio gyda rhieni neu i gynnal trafodaethau cyfrinachol pan fo angen.

Ar gyfer datblygiad iach y plant, mae'n bwysig darparu amgylchedd lle caiff iechyd da ei ystyried yn nodwedd gadarnhaol a lle caiff agweddau ac ymddygiad iach eu datblygu. Mae lleoliadau cyn-ysgol yn cael eu hannog i weithio, gyda chefnogaeth leol, tuag at [Feini Prawf Gwobr Genedlaethol y Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy](#). Mae hyn yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion yn ymwneud ag iechyd ar sail y lleoliad cyfan ac yn cael ei asesu'n lleol.

Mae plant angen amser i ymgartrefu mewn amgylchedd newydd, i feithrin perthnasoedd gyda'r staff a chyfoedion ac i ymaddasu i arferion newydd. Mae plant angen amser i arsylwi ac i drin deunyddiau cyfarwydd y gallant ddychwelyd

atynt bob dydd. Dylai'r staff gefnogi'r cam ymgartrefu hwn a pheidio â gorlethu plant gyda gormod o weithgareddau ac adnoddau.

Mae'n bosibl y bydd angen newid neu addasu adeiladau ac adnoddau er mwyn sicrhau y gall pob plentyn ddefnyddio'r lleoliad, beth bynnag fo'i angen neu anabledd.

Rhaid i fodolau cyflenwi gofal plant Dechrau'n Deg ddiwallu anghenion a ddynodir yn lleol. Mae gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd a'r disgrisiwn lleol i benderfynu pa fath o gyflenwad i'w fabwysiadu. Gall y rhain gynnwys:

- Lleoliadau cymysg (plant Dechrau'n Deg a phlant nad ydynt yn rhan o'r cynllun)
- Lleoliadau Dechrau'n Deg yn unig
- Ysgolion a gynhelir
- Economi gymysg trwy leoliadau gwirfoddol / cymunedol / annibynnol.

Mae angen i awdurdodau lleol ddilyn eu rheolau caffael eu hunain wrth lunio Cytundebau Lefel Gwasanaeth. Rhaid i'w hadran gwasanaethau cyfreithiol wirio'r rhain (gweler 'Perthnasoedd Trydydd Parti a Gwariant' yn yr Atodiad, Rheolaeth Ariannol Dechrau'n Deg).

Rhaid cofrestru holl leoliadau Dechrau'n Deg gydag AGGCC a rhaid iddynt fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir, a ddiwygiwyd ym mis Mawrth 2012. Rhaid pwysleisio y disgwylir i leoliadau Dechrau'n Deg fod o ansawdd gwell na'r mwyafrif o ddarpariaethau gofal plant, ac felly dylent fod o safon uwch na'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

## **II. Pobl o Ansawdd Da**

Rhaid i'r staff a benodir i weithio mewn lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg fod o'r radd flaenaf er mwyn cyflenwi darpariaeth o ansawdd da. Dylai'r staff fod yn ymatebol, yn serchog ac ar gael i'r plant bob amser, ac yn ymroddedig i'w gwaith gyda phlant. Dylai'r staff fod wedi'u hyfforddi'n dda er mwyn gwella datblygiad y plant. Dylai datblygiad staff sicrhau dilyniant a sefydlogrwydd a hefyd gwella ansawdd.

Canfu astudiaeth EPPE (2003) po uchaf yw cymwysterau'r staff, yn arbennig yr arweinydd/rheolwr, mwyaf o gynnydd mae'r plant yn ei wneud.

Mae parhad staff yn bwysig hefyd. Gall plant ddangos arwyddion o ymddygiad ymosodol neu ymgilio cymdeithasol pan fo eu gofalwyr yn newid o hyd. Yn aml bydd plant sy'n dysgu cyfathrebu yn defnyddio iaith lafar idiosyncratig neu ystumiau. Mae gofalwr sy'n gyfarwydd â'r plentyn yn debygol o ddysgu elfennau idiosyncratig o'r fath a gallu ymateb iddynt, lle byddai gofalwr newydd yn fwy tebygol o beidio â deall (Melhuish, 1991). Mae'n arfer da felly i awdurdodau lleol gyflwyno strategaethau fydd yn gwella parhad staff yn y cynllun Dechrau'n Deg.



Wrth drafod arfer, mae Selleck a Griffin (1996) yn awgrymu bod gweithio gyda phlant o dan 3 oed a'u teuluoedd, a diwallu eu hanghenion, yn dasg gwerth chweil ond heriol, sy'n gallu bod yn flinedig yn emosiynol ac yn gorfforol. Mae'r staff angen amser i fyfyrion ar eu hymarfer ac i rannu pryderon gyda chydweithwyr. Gall goruchwyliaeth sensitif, hyfforddiant mewn swydd a ffurfio rhwydweithiau helpu i ddiwallu'r angen hwn.

Rhaid bod gan staff sy'n gweithio mewn lleoliadau Dechrau'n Deg brofiad o weithio gyda phlant ifanc. Rhaid eu bod yn meddu ar y cymwysterau a nodir yn Rhestr o Gymwysterau Derbyniol Cyngor Gofal Cymru i weithio yn Sector y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru. Mae Adran 5 yn y rhestr yn nodi'r cymwysterau sydd eu hangen arnoch i weithio mewn lleoliadau Dechrau'n Deg. Mae'n nodi'r cymwysterau cyfredol a dderbynnir, yr hen gymwysterau a dderbynnir a chymwysterau seiliedig ar waith a awgrymir er mwyn camu ymlaen yn eich gyrfa a sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus. I weld y rhestr, dilynwch y ddolen hon:

<http://www.ccwales.org.uk/qualifications/>

Os nad oes gan aelodau o'r staff y cymhwyster gofynnol, rhaid i'r Cynllun Dechrau'n Deg nodi sut ac erbyn pryd bydd y staff wedi'u hyfforddi i'r safon ofynnol. Bydd angen i hyn gael ei fonitro gan y Cynghorydd/Athro Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn amserol a bod y cymwysterau yn cael eu cwblhau yn unol â'r amserlen gytunedig.

Mae'r gymhareb oedolion:plant mewn lleoliadau Dechrau'n Deg yr un peth â mewn lleoliadau gofal plant eraill. Ceir manylion llawn am y cymarebau oedolion:plant gofynnol yn [Safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir - Mawrth 2012](#).

Yn ogystal â'r cymarebau staffio gofynnol, dylid cyflogi staff hyfforddedig a chymwys ychwanegol i gyflenwi er mwyn caniatáu i'r arweinydd/rheolwr gyflawni dyletswyddau ychwanegol, megis cyfarfod yn rheolaidd â rhieni, cynnal ymweliadau â chartrefi a mynychu cyfarfodydd. Dylai'r staff cyflenwi fod ar gael ar gyfer tri sesiwn y mis, o leiaf.

**Ni ellir** cynnwys gwirfoddolwyr yn nifer yr oedolion sy'n rhan o'r gymhareb oedolion:plant gofynnol mewn lleoliad Dechrau'n Deg.

Rhaid i'r holl staff gofal plant gyflawni o leiaf pum niwrnod o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) bob blwyddyn, fel y'u dynodir gan y Cynghorydd/Athro Ymgynghorol Blynyddoedd Cynnar. Mae'r hyfforddiant hwn yn ychwanegol at unrhyw ofynion hyfforddiant a nodir gan y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Dylai'r hyfforddiant ddiwallu anghenion aelodau unigol o'r staff a sicrhau bod gan yr holl staff y wybodaeth, y sgiliau, yr agweddau a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol i'r swydd. Dylid cynnwys cost cyflenwi oriau staff yn ystod hyfforddiant yng nghyllideb Dechrau'n Deg y lleoliad.

Mae Fframwaith DPP Dechrau'n Deg yn cyfuno sgiliau presennol ymarferwyr Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Dechrau'n Deg ac yn datblygu'r sgiliau

arbenigol mae'r staff eu hangen i weithio mewn lleoliad blynyddoedd cynnar Dechrau'n Deg. Mae'r Fframwaith yn disgrifio ac yn nodi'r trefniadau gofynnol ar gyfer addysg a dysgu proffesiynol parhaus staff Dechrau'n Deg ar ôl cymhwyso cychwynnol. Mae'r Fframwaith yn cyfuno ac yn gwella safon arfer Blynyddoedd Cynnar ac yn hybu proffesiynoldeb.

Mae Cyngor Gofal Cymru hefyd wedi datblygu pecyn cymorth y gellir ei ddefnyddio i gefnogi Datblygiad Proffesiynol Parhaus: [Pecyn cymorth DPP ar gyfer Rheolwyr a Gweithwyr Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant](#).

### **III. Profiad o ansawdd da i'r plentyn**

Bydd plant yn symud yn uniongyrchol i'r Cyfnod Sylfaen ar ddiwedd eu cyfnod yng ngofal plant Dechrau'n Deg. Felly dylai gofal plant Dechrau'n Deg adlewyrchu athroniaeth ac addysgeg tebyg i'r Cyfnod Sylfaen, er mwyn darparu proses pontio hwylus. Mae angen i staff Dechrau'n Deg feithrin cysylltiadau cryf â darparwyr Cyfnod Sylfaen lleol er mwyn sicrhau proses pontio hwylus i bob plentyn. Mae'r cwricwlwm a'r deilliannau i blant 3 i 7 oed yng Nghymru yn y Cyfnod Sylfaen i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru: [Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru](#)

Bydd y staff, mewn partneriaeth â rhieni, yn cynorthwyo'r plant â'r canlynol:

- datblygiad personol a chymdeithasol;
- datblygiad emosiynol;
- datblygiad moesol ac ysbrydol;
- datblygiad gwybyddol;
- datblygiad corfforol; a
- datblygiad ieithyddol a sgiliau cyfathrebu.

Rhaid cofio y bydd y plant sy'n mynychu lleoliadau Dechrau'n Deg dim ond megis dechrau ar y broses hon.

Fframweithiau addysgeg hyblyg sy'n canolbwyntio ar broses ac amcanion datblygu yn hytrach nag ar ddeilliannau pwnc sy'n ffurfio'r rhaglenni dysgu mwyaf priodol ar gyfer y grŵp oedran hwn. Dylai ymarferwyr a rhieni ddatblygu amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau ysgogol a fydd yn cyffroi ac yn diddori'r plant, gan eu cymell i ddysgu.

Trwy gynyddu rheolaeth ar lafaredd (a llythrennedd, yn ddiweddarach), mae plant yn caffael ffyrdd o gael gwybodaeth a hefyd dulliau meddwl a dysgu (Riley, 1999). Hefyd mae plant angen iaith i ddatblygu meddwl, a pho fwyaf maent yn meddwl, mwyaf y bydd eu hiaith yn datblygu (Siraj-Blatchford, 2005). Bydd lleoliad gofal plant Dechrau'n Deg o ansawdd da yn caniatáu i blant ddatblygu a defnyddio eu sgiliau llafaredd. Bydd hyn o fudd i sgiliau llythrennedd a dysgu'r plentyn o dair blwydd oed ymlaen, yn arbennig trwy brofiadau synhwyrdd uniongyrchol, er enghraifft, trwy ddarllen, canu, defnyddio chwarae rôl a'r amgylchedd yn yr awyr

agored i ddarparu profiadau dysgu uniongyrchol cyfoethog ac ymarferol i'r plant (Estyn, 2011).

Mae'n bwysig cofio bod blynyddoedd cynnar bywyd plentyn yn bwysig ynddynt eu hunain ac nid dim ond fel paratoad ar gyfer addysg ffurfiol ac oedolaeth. Mae pob plentyn yn dod i leoliad fel unigolyn sydd â'i brofiadau personol o fywyd, a bydd wedi cyrraedd ei gam datblygiadol unigryw ei hun. Felly ni ddylid categoreiddio plentyn yn ôl ei oedran. Yn hytrach, yr hyn mae'r plentyn yn ei wybod ac yn gallu ei wneud ddylai fod y man cychwyn ar gyfer ei ddysgu.

Dylid defnyddio hyn, ochr yn ochr ag asesiad o ddiddordebau ac anghenion plentyn, fel man cychwyn i'r staff wrth gynllunio profiadau a gweithgareddau. Dylid cynnwys ymwelwyr iechyd yn y broses a dylid gwneud defnydd llawn o'r wybodaeth sydd ganddynt am ddatblygiad y plentyn. Dylai gwaith cynllunio fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu i'r staff addasu ac ailstrwythuro cynlluniau o ganlyniad i arsylwi ar y plant yn barhaus yn ystod eu gweithgareddau dyddiol.

Mae asesu plant sy'n dod i ofal plant Dechrau'n Deg yn sensitif ac yn drylwyr yn darparu cyfle i ganfod unrhyw gymorth ac ymyriadau ychwanegol mae eu hangen i helpu i ddiwallu anghenion unigol. Rhaid i bob plentyn Dechrau'n Deg gael ei asesu gan ddefnyddio dull asesu sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, sef ar hyn o bryd y Rhestr Sgiliau Tyfu (SoGS).

Mae'r Rhestr Sgiliau Tyfu'n darparu dull safonol o sgrinio datblygiad ac yn hybu cysondeb wrth asesu datblygiad y plentyn cyn-ysgol. Mae'n darparu ciplun dibynadwy o ddatblygiad y plentyn mewn naw maes allweddol, gan gynnwys sgiliau corfforol, datblygiad gwybyddol, lleferydd ac iaith, a rhyngweithio cymdeithasol. Mae'r dull yn galluogi'r ymwelydd iechyd i asesu, sgorio a chynnig adborth mewn oddeutu 30 munud. Mae ei system sgorio syml yn nodi a oes angen monitro plentyn ymhellach, neu efallai ei atgyfeirio at arbenigwr.

Rhaid asesu pob plentyn Dechrau'n Deg yn 2 oed. Asesiad y Rhestr Sgiliau Tyfu fydd sail Cynllun Datblygu Plentyn unigol. Bydd ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg yn cyflawni'r asesiadau hyn ac yn rhannu'r canlyniadau gyda'r lleoliad gofal plant. Lle nodir bod gan y plentyn anghenion ychwanegol, bydd cynllun ar y cyd i fynd i'r afael â'r anghenion hynny yn cael ei lunio a'i roi ar waith naill ai ar y cyd neu ar wahân (gan ddibynnu ar yr angen a nodir) gan yr ymwelydd iechyd a/neu'r lleoliad gofal plant.

Cyflawnir ail asesiad o'r plentyn pan fydd yn 3 oed. Dylai'r ymwelydd iechyd naill ai gyflawni neu o leiaf cofnodi'r ail asesiad hwn. Bydd yr asesiad yn cynorthwyo'r lleoliad Dechrau'n Deg i ganfod anghenion parhaus, llywio'r broses pontio i'r Cyfnod Sylfaen a darparu tystiolaeth o gynnydd y plentyn. Dylai'r holl staff mewn lleoliadau chwarae rhan yn y broses o gwblhau'r Cynllun Datblygu Plentyn unigol a'r gwaith asesu parhaus.

Dylai rhieni gael y wybodaeth lawn am ganlyniadau asesiadau'r Rhestr Sgiliau Tyfu. Mae'n bwysig i rieni gael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio gweithgareddau ar gyfer eu plant; iddynt gael cyngor ar sut i gefnogi dysgu eu plentyn yn y cartref; iddynt gael eu hannog i gynnwys gweithwyr proffesiynol

ychwanegol os nodir bod gan eu plentyn anghenion dysgu ychwanegol; ac iddynt gael eu hannog i rannu gwybodaeth pan fydd eu plentyn yn trosglwyddo i'r Cyfnod Sylfaen.

Mae chwarae'n rhan hanfodol o'r ffordd mae plant yn dod yn hunanymwybodol ac o'r ffordd y maent yn dysgu rheolau ymddygiad cymdeithasol. Mae chwarae hefyd yn rhan sylfaenol o ddatblygiad deallusol. Mae chwarae'n cynorthwyo plant wrth 'ddysgu sut i ddysgu' ac wrth feithrin dyheadau uchelgeisiol, hunanddelwedd gadarnhaol a thueddiad at ddysgu. Felly bydd angen i'r staff mewn lleoliadau Dechrau'n Deg feddu ar ddealltwriaeth dda o'r ffordd mae plant yn datblygu ac yn dysgu, a gallu hwyluso dysgu trwy weithgareddau o ansawdd da sy'n seiliedig ar chwarae.

### **3. Cymorth wrth sicrhau ansawdd da**

Rhaid i'r awdurdod lleol benodi Cynghorydd neu Athro Ymgynghorol Blynnyddoedd Cynnar. Prif swyddogaeth y Cynghorydd/Athro fydd gwella ansawdd lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg a chynorthwyo staff Dechrau'n Deg yn ei ardal.

Mae'n rhaid i'r Cynghorydd/Athro feddu ar ddealltwriaeth o wahanol anghenion a chamau datblygiadol plant ifanc, yn arbennig y gwahaniaethau rhwng plentyn 2 oed a plentyn 3 oed. Bydd y Cynghorydd/Athro'n hybu arfer da ymysg staff Dechrau'n Deg fel bod y plant yn cael eu paratoi'n ddigonol i ddechrau ar y Cyfnod Sylfaen.

Rhaid bod gan y Cynghorydd/Athro brofiad o weithio yn y sector, a gallu datblygu a darparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol gofal plant. Bydd y Cynghorydd/Athro'n ymweld â phob lleoliad Dechrau'n Deg o leiaf unwaith y mis i ddarparu cymorth a chynghor i'r staff. Bydd y Cynghorydd/Athro hefyd yn cytuno ar gynllun cyflawni gyda phob lleoliad Dechrau'n Deg.

Disgwylir i'r holl lleoliadau Dechrau'n Deg fod â system Sicrhau Ansawdd. Mae Sicrhau Ansawdd yn fath penodol o wella ansawdd sy'n darparu cydnabyddiaeth bod lleoliad wedi gwneud cynnydd gwirioneddol yn erbyn set o safonau cytunedig ac i lefel achrededig. Ar gyfer hyn, mae'n ofynnol cael adolygiad annibynnol o ansawdd y lleoliad gan weithiwr proffesiynol hyfforddedig, gyda chefnogaeth gweithdrefnau i sicrhau cysondeb, cydraddoldeb a gwrthrychedd. Mae gan lawer o sefydliadau yn y sector gofal plant eu cynlluniau sicrhau ansawdd eu hunain, ac fel arfer maent yn darparu cymorth gyda'r gwaith o weithredu'r cynllun.

Argymhellir bod pob lleoliad gofal plant yn aelod o un o'r pedwar prif sefydliad ambarél gofal plant yng Nghymru, sef Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (Cymru); Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (WPPA); Mudiad Ysgolion Meithrin a'r Professional Association for Childcare and Early Years (PACEY) (a elwid gynt National Childminders' Association (NCMA) Cymru). Mae gan y sefydliadau hyn lawer iawn o brofiad ac maent yn cynnig buddion megis:

- Cynghor a chymorth cyfreithiol;
- Cynllun Sicrhau Ansawdd;

- Gwybodaeth gyfredol ar faterion yn ymwneud â gofal plant;
- Cyngor ar sefydlu a rhedeg lleoliad gofal plant cyfrwng Cymraeg;
- Cymorth i fusnesau a darparu swyddogaethau busnes allweddol, megis cyflogres ac anfonebu;
- Hyfforddiant a DPP i'r staff;
- Gostyngiadau ar wasanaethau megis yswiriant; a
- Chyhoeddi dogfennau busnes hanfodol.

#### **4. Nifer a hyd y sesiynau**

Bydd gofal plant Dechrau'n Deg yn canolbwyntio ar wella deilliannau i blant ifanc wrth iddynt baratoi ar gyfer yr ysgol ac yn y tymor hirach. Gall plant fanteisio ar y ddarpariaeth hon o ddechrau'r tymor yn dilyn eu hail ben-blwydd hyd ddiwedd y tymor pan maent yn dathlu eu trydydd pen-blwydd.

Mae arlwy gofal plant craidd Dechrau'n Deg ar gael i rieni pob plentyn 2 a 3 oed sy'n gymwys am 12½ awr yr wythnos, 39 wythnos y flwyddyn. Yn ogystal, dylid darparu o leiaf 15 sesiwn o ofal plant hyblyg a/neu chwarae i'r plentyn neu'r teulu yn ystod gwyliau ysgol.

Dylai'r sesiynau fod am 2½ awr y dydd, 5 diwrnod yr wythnos, er mwyn i'r plentyn gael y budd mwyaf posibl o'r rhaglen. Fodd bynnag, mae gan y lleoliad Dechrau'n Deg rywffaint o hyblygrwydd o ran y ffordd y rhennir y 5 sesiwn ar draws yr wythnos, os bydd rhiant/gofalwr yn gofyn am drefniant gwahanol, megis pan fo'r rhiant/gofalwr yn mynychu cwrs hyfforddiant neu'n gweithio. Rhaid i'r lleoliad Dechrau'n Deg a'r teulu gytuno ar y trefniant hwn.

Yn aml, mae angen bod yn hyblyg o ran nifer y sesiynau y mae plant yn eu mynychu er mwyn darparu ar gyfer anghenion rhieni. Er enghraifft, os yw rhiant yn penderfynu dod â'i blentyn i dri sesiwn yn unig, dylid caniatáu hynny. Fodd bynnag, dylai darparwyr annog rhieni i fanteisio ar yr holl ofal plant mae ganddynt hawl i'w gael, lle bo modd.

Dylai cynlluniau Dechrau'n Deg nodi trefniadau ar gyfer rheoli lleoedd gofal plant gyda'r nod o lenwi'r nifer fwyaf posibl o leoedd, yn ogystal â sicrhau gwerth am arian yn nhermau ailddyrrannu. Mae rhagor o gyfarwyddyd ar ailddyrrannu i'w gael yn Atodiad 9: Monitro Data Perfformiad Dechrau'n Deg.

#### **5. Cydraddoldeb, cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol**

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn dweud bod gan bob plentyn yr hawl i ofal o ansawdd da, sy'n gosod sylfeini cadarn ar gyfer gweddill ei fywyd ac yn gwneud y mwyaf o'i allu cynhenid. Mae'r confensiwn yn pwysleisio'r angen i barchu hunaniaeth plentyn ochr yn ochr â'i draddodiadau teuluol trwy gydnabod ei ddiwylliant neilltuol a rhoi gwerth ar iaith y cartref.

Dylid trin pob plentyn a'i rieni yn gyfartal. Rhaid iddynt deimlo eu bod wedi eu cynnwys beth bynnag fo'u hil, rhyw, diwylliant, crefydd, anabledd neu ffordd o fyw a'u bod yn chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith y lleoliad. Mae'n hanfodol

canfod anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar er mwyn darparu cymorth priodol, gan fod ymyrraeth ataliol yn fwy effeithiol na chymorth a ddarperir yn ddiweddarach.

Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y ddarpariaeth Dechrau'n Deg sydd ar gael i'w plant yn cael ei chynnig i'r holl rieni sydd â phlant o oedran priodol yn yr ardal, a'u bod yn cael eu hannog i fanteisio arni. Bydd hyn yn cynorthwyo â chanfod anghenion yn gynnar, a lle bo angen, sicrhau y gellir darparu cymorth cyn gynted ag sy'n bosibl.

Mae'r astudiaeth 'Prosiect Pontio Blynyddoedd Cynnar ac Anghenion Addysgol Arbennig' (EYTSN) (Sammons et al, 2003) yn tynnu sylw at fuddion darpariaeth blynyddoedd cynnar o ansawdd da i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu sydd â risg o'u datblygu. Ar gyfer deilliannau gwybyddol, canfu astudiaeth EYTSN fod plant ag anfanteision lluosog (yn nhermau nodweddion y plentyn, y teulu a'r cartref) yn fwy tebygol o gael eu nodi fel rhai â risg o ddatblygu anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ymchwili yn awgrymu bod darpariaeth o ansawdd da o bosibl yn helpu i leihau nifer yr achosion o anghenion ychwanegol (gwybyddol a chymdeithasol/ymddygiadol fel ei gilydd), yn arbennig ymysg y grwpiau mwyaf difreintiedig ac agored i niwed o blant ifanc. Canfu'r astudiaeth hefyd fod plant nad oedd Saesneg (neu Gymraeg) yn iaith gyntaf iddynt yn fwy tebygol o fod â risg pan roeddent yn dechrau yn y lleoliad cyn-ysgol, ond eu bod yn dal i fyny pan oeddent yn hŷn, mae'n debyg wrth i'w gallu ieithyddol wella. Canfuwyd bod plant oedd yn tueddu i aros gartref ac nad oeddent yn cael addysg gynnar yn arbennig o agored i niwed. Awgrymwyd bod annog y plant hynny i fynychu darpariaethau fel Dechrau'n Deg o bosibl yn helpu i wella eu deilliannau addysgol.

Dylai penderfyniadau ynghylch y rhaglenni ymyrraeth mwyaf priodol i'r plant hyn gael eu gwneud gan banel rhyngasiantaethol o arbenigwyr, sydd wedi'i sefydlu gan yr awdurdod lleol, er mwyn sicrhau y darperir cymorth priodol. Dylid cynnwys rhieni a staff Dechrau'n Deg yn llawn ym mhob cam o'r broses hon.

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen addasu'r safle a darparu adnoddau ac offer penodol er mwyn sicrhau y gall pob plentyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anabledau, fanteisio ar y ddarpariaeth Dechrau'n Deg.

## **6. Darpariaeth Gymraeg**

Mae awdurdodau lleol yn cynnal Aseidiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant er mwyn canfod bylchau yn y ddarpariaeth, gan gynnwys bylchau yn y ddarpariaeth gofal plant Gymraeg. Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau y darperir gofal plant cyfrwng Gymraeg digonol, gan gynnwys gofal plant Dechrau'n Deg, lle bo galw amdano, o dan amodau Deddf Gofal Plant 2006.

Lle bod modd, rhaid rhoi i blant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg yr opsiwn o fynychu lleoliad gofal plant sy'n cynnig darpariaeth Gymraeg. Fel rhan o waith Monitro Data Perfformiad Dechrau'n Deg, rhaid i awdurdodau lleol gofnodi nifer y

plant y mae eu rhieni wedi gofyn yn benodol am ofal plant cyfrwng Cymraeg. Hefyd rhaid cofnodi nifer y ceisiadau hyn sy'n arwain at gynnig yn eu dewis iaith.

Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gwblhau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP), sy'n nodi sut mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cyflawni canlyniadau a thargedau Llywodraeth Cymru a nodir yn y [Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg](#). Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried targedau ei Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg wrth gynllunio gofal plant Dechrau'n Deg.

## 7. Cynnwys rhieni

Mae angen i'r staff feithrin partneriaethau agos gyda rhieni a rhannu gwybodaeth am eu plentyn er mwyn iddynt gael y buddion mwyaf o'r ddarpariaeth. Pan mae rhieni'n chwarae rhan yn addysg eu plentyn o oedran ifanc, mae hyn yn cael effaith arwyddocaol ar gyflawniad addysgol, ac yn parhau i wneud hynny mewn blaenlencyndod ac oedolaeth (DCSF, 2008). Dylai asiantaethau eraill hefyd gyfrannu a rhannu gwybodaeth berthnasol fydd yn galluogi'r holl bartneriaid i ddarparu ar gyfer pob plentyn yn unol â'i anghenion.

Canfu'r Gwerthusiad o Dechrau'n Deg (2011), oedd yn canolbwyntio ar deuluoedd â babanod rhwng 7 a 20 mis, nad oedd 5% o rieni'n mynychu grwpiau rhianta oherwydd eu bod "yn rhy swil/dihyder" ac nad oedd 3% yn mynychu oherwydd "na fyddent yn adnabod unrhyw arall yno". Mae hyn yn tanlinellu'r angen am sensitifrwydd ar ran y staff, yn arbennig wrth ymdrin â'r grwpiau mwyaf difreintiedig, megis rhieni yn eu harddegau, rhieni sengl ac aelwydydd di-waith. Rhaid i Ddechrau'n Deg sicrhau nad yw'r grwpiau hyn yn teimlo eu bod wedi'u llethu, er mwyn i'r plentyn gael buddion llawn y cynllun.

Canfu ymchwil EPPE (2003) fod ansawdd yr amgylchedd dysgu yn y cartref yn cael effaith ar ddatblygiad plant. Canfuwyd, er bod cysylltiad rhwng dosbarth cymdeithasol a lefelau addysg rhieni a deilliannau plant, bod yr hyn mae rhieni yn ei wneud gyda'u plant yn bwysicach na phwy ydynt. Canfu'r ymchwil lle bo rhieni'n cyflawni gweithgareddau fel darllen i'w plant, dysgu caneuon a rhigymau i'w plant, paentio a thynnu lluniau, chwarae â llythrennau a rhifau; a darparu cyfleoedd iddynt chwarae â'u cyfoedion, roedd yn helpu i hybu datblygiad deallusol a chymdeithasol eu plant. Felly dylai'r staff mewn lleoliadau Dechrau'n Deg fod yn rhagweithiol wrth helpu rhieni i gefnogi datblygiad a dysgu eu plant yn y cartref.

Dylai'r staff fod yn rhagweithiol wrth gysylltu â theuluoedd â phlant sy'n gymwys i gael gofal plant Dechrau'n Deg, er mwyn sicrhau cefnogaeth rhieni a phresenoldeb plant yn y lleoliadau. Efallai bydd angen dycnwch a dyfeisgarwch i ymgysylltu â rhai o'r rhieni, yn arbennig o'r grwpiau 'anodd eu cyrraedd', fel bod eu plant yn cael eu dyraniad gofal plant llawn. Gellir llenwi bylchau parhaus trwy drefniadau hyblyg neu drefniadau allgymorth. Mae angen i bob awdurdod lleol fod â pholisïau i annog rhieni i wneud defnydd llawn o'r gofal plant sydd ar gael, megis sesiynau blasu cyn dechrau'r cyfnod pan fo hawl ganddynt i ofal plant.

Rhaid cynnwys rhieni mewn trafodaethau am eu plentyn a rhoi arweiniad iddynt ar ffyrdd o gefnogi cynllun datblygu eu plentyn, yn ogystal â'i les a'i ddatblygiad y tu allan i'r lleoliad.

Mae angen annog rhieni plant sy'n mynychu lleoliadau Dechrau'n Deg i gymryd rhan lawn yng ngweithgareddau eu plant ac yn yr asesiadau o'u cynnydd. Dylai'r staff groesawu rhieni i'r lleoliadau a dangos iddynt eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel addysgwyr a gofalwyr cyntaf y plant.

Mae sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o nodau'r lleoliad a chaniatáu iddynt weld sut mae ymarferwyr yn ymgysylltu â phlant mor ifanc yn gallu meithrin hyder rhieni, a gallai adnewyddu eu diddordeb mewn dysgu. Dylid annog rhieni hefyd i gyfrannu cymaint ag sy'n bosibl i fywyd a gwaith y lleoliad.

Dylai ymwelydd iechyd Dechrau'n Deg gyfeirio rhieni sy'n gymwys at ofal plant Dechrau'n Deg ar yr adeg briodol. Dylid cynnwys rhieni wrth ddewis y math o leoliad mae eu plentyn yn ei fynychu.

Dylai lleoliadau fod o fewn pellter 'gwthio pram' o gartref y plant, lle bo modd. Yn ymarferol, mae hynny rhwng 10 a 15 munud ar y mwyaf.

## **8. Crynodeb**

Mae deilliannau cadarnhaol yn un o egwyddorion sylfaenol Dechrau'n Deg. Fel mae'r ddogfen hon wedi esbonio, mae ymchwil helaeth yn dangos bod gofal plant o ansawdd da yn helpu i sicrhau deilliannau cadarnhaol. Elfen bwysicaf yr arlwy gofal plant am ddim i blant 2 a 3 oed yw bod yn rhaid i'r gofal plant a ddarperir fod o'r ansawdd gorau posibl. Bydd amgylchedd gofal plant o ansawdd da, ynghyd â phobl o ansawdd da, yn darparu profiad o ansawdd da i'r plentyn a dechrau da mewn bywyd.



## Llyfryddiaeth

|  |      |  |
|--|------|--|
| Bertram, T, a Pascal, C  | 2002 | 'Early Years Education: An International Perspective'<br>Centre for Research in Early Childhood, Birmingham ar gyfer yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm ac NFER                                      |
| David, T.  | 1996 | Contemporary Issues in the Early Years Gol. gan Gillian Pugh, Biwro Cenedlaethol y Plant (Ail Argraffiad)  |
| DfES /Sure Start   | 2004 | A Code of Practice on the provision of free nursery education places for three and four year olds 2004-2005  |
| Plant yng Nghymru  | 2011 | Flying Start 2006 – 2011: Experiences, Lessons and Recommendations for the Future  |
| DCSF   | 2008 | The Impact of Parental Involvement on Children's Education   |
| Estyn  | 2011 | Arfarniad o roi'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 5-6 oed ar waith mewn ysgolion cynradd, gyda chyfeiriad arbennig at lythrennedd (Adroddiad)  |
| Love, John M. et al  | 2005 | The Effectiveness of Early Head Start for 3-Year-Old Children and Their Parents: Lessons for Policy and Programs (Developmental Psychology, American Psychological Association 2005, Cyf. 41, Rhif. 6) |
| Meade, A. a Podmore, V.N.  | 2002 | Early Childhood \ Education Policy Co-ordination under the Auspices of the Department/ Ministry of Education, New Zealand UNESCO   |
| Melhuish, E.   | 1991 | 'Research on day care for young children in the United Kingdom', from Day Care for Young Children: An International Perspective.' Routledge.   |
| Melhuish, E.   | 2004 | A Literature Review of the Impact of Early Years Provision on Young Children, with Emphasis given to Children from Disadvantaged Backgrounds Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol                          |
| Melhuish, E., Belsky, J. a Leyland et al                             | 2005 | 'Early Impacts of Sure Start Local Programmes on Children and Families' Sure Start Report 13 HMSO  |
| Moyles, J., Adams, S. a Musgrove, A                                  | 2002 | 'Study of Pedagogical Effectiveness in Early Learning' (SPEEL) School of Education Research and Development, Anglia Polytechnic University   |
| Munton, T., Mooney, A., Moss, P., Petrie, P., Clark, A. a Woolner, J | 2002 | 'Research on Ratios, Group Size and Staff Qualifications and Training in Early Years and Childcare' adroddiad RR320 Yr Adran Addysg a Sgiliau  |
| Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)   | 2001 | 'Starting Strong Early Childhood Education and Care' OECD  |
| Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)   | 2004 | 'Starting Strong Curricula and Pedagogies in Early Childhood Education and Care' OECD  |

|   |            |   |
|---|------------|---|
| Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)                              | 2011       | PISA In Focus 1: Does participation in pre-primary education translate into better learning outcomes at school?   |
| Riley, J.   | 1999       | 'Curiosity and Communciation: Language and Literacy in the Early Years', o 'A Curriculum Development Handbook for Early Years Childhood Educators.' Gol. gan Iram Siraj-Blatchford, Trentham Books.                       |
| Sammons, P., Taggart, B., Smees, R., Sylva, K., Melhuish, E., Siraj-Blatchford, I. a Elliot, K. | 2003       | The Early Years Transition and Special Educational Needs (EYTSEN) Project Sefydliad Addysg, Prifysgol Llundain, Prifysgol Rhydychen, Birkbeck, Prifysgol Llundain<br>Adroddiad Ymchwil RR431<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau |
| Schweinhart, Lawrence J., Barnes, H.V. a Weikart, D.P.  | 1993       | Significant Benefits: The High/Scope Perry Preschool Study through Age 27. Monographs of the High/Scope Educational Research Foundation" Rhif 10, 1993, High/Scope Educational Research Foundation                        |
| Gweithrediaeth yr Alban   | 2005       | 'Birth to Three'<br>Learning and Teaching Scotland  |
| Selleck, D. a Griffin, S.   | 1996       | Contemporary Issues in the Early Years Gol. gan Gillian Pugh, Biwro Cenedlaethol y Plant (Ail Argraffiad)   |
| Siraj-Blatchford, I.  | 2005       | 'Interaction Matters', o Birth to Three Matters. Gol. gan Abbot, L. a Langston, A.  |
| Siraj-Blatchford, I., Sylva, K., Laugharne, J., Milton, E. a Charles, F.                        | 2006       | Prosiect Monitro a Gwerthuso Gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn Effeithiol (MEEIFP) ar Draws Cymru<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru   |
| SQW Consulting  | 2010       | Quality Childcare   |
| Sylva, K., Melhuish, E., Sammons, P., Siraj-Blatchford, I., Taggart, B. ac Elliot, K.           | 2003, 2004 | The Effective Provision of 'Pre-School Education (EPPE) Project: Findings from the Pre-School Period'<br>Sefydliad Addysg, Prifysgol Llundain   |
| Sylva, K., Melhuish, E., Sammons, P., Siraj Blatchford, I., Taggart, B. ac Elliot, K.           | 2007       | Effective pre-school and primary education: findings from the pre-school period. Teaching and Learning Research Briefing no. 24.<br>Sefydliad Addysg, Prifysgol Llundain  |
| Taylor, J. a Woods, M   | 1998       | Early Childhood Studies<br>Arnold   |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru   | 2002       | Hawl Bore Oes: Cefnogi Plant a Theuluoedd yng Nghymru<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru  |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru   | 2003       | Y Wlad sy'n Dysgu: Y Cyfnod Sylfaen 3-7<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru  |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru   | 2005       | Cymorth: Cronfa Gymorth i Blant a Phobl Ifanc<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru  |
| Llywodraeth Cymru   | 2011       | Gwerthuso Dechrau'n Deg. Canfyddiadau arolwg sylfaenol o deuluoedd – mapio anghenion a mesur dylanwad cynnar ymhlith teuluoedd â babanod 7-20 mis oed   |
| Llywodraeth Cynulliad Cymru   | 2005       | Dechrau'n Deg<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru  |